Datganiad yn dod â'r Parth Gwyliadwriaeth â'i ganolbwynt yng nghyfeirnod grid SO4103161656 i ben.

Cadarnhaodd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru fod y ffliw adar pathogenig iawn yn bresennol ar safle yng Nghymru yn unol ag erthygl 28(1) o Orchymyn Ffliw Adar a Ffliw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006[1] ("y Gorchymyn").

Yn unol â'r erthyglau 28(3), 29(2) a 31(1) o'r Gorchymyn, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Barth Gwyliadwriaeth â'i ganolbwynt yng nghyfeirnod grid SO4103161656 a ddaeth i rym ar 21:00 ar 2 Rhagfyr 2021.

Yn unol ag erthygl 36(3) o'r Gorchymyn, mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn dod â'r Parth Gwyliadwriaeth hwnnw i ben. Mae o leiaf 30 diwrnod wedi mynd heibio ers cynnal y mesurau glanhau a diheintio rhagarweiniol y cyfeirir atynt yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn, ym mhob safle heintiedig yn y parth hwnnw.

Mae'r holl dermau a ddefnyddir yn y Datganiad hwn wedi'u diffinio yn y Gorchymyn.

Daw'r Datganiad hwn i rym ar 12:30, 14 Ionawr 2022.

Llofnodwyd: Gavin Watkins, Dirprwy Brif Swyddog Milfeddygol Cymru

Dyddiedig: am 12:03 ar 14 Ionawr 2022

O dan awdurdod y Gweinidog Materion Gwledig a'r Gogledd, a'r Trefnydd

[1] Rh.S. 2006/2927 (Cy. 262).

Copies of this Declaration and of the Order are available at the Welsh Government webpages and from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.